Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Cytundebau rhyngwladol

## Cytundebau a drafodwyd ar 30 Medi 2024

Hydref 2024

# 1. Y cefndir

**1.** Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

**2.** Gall cytundebau rhyngwladol a lofnodir gan Lywodraeth y DU ymdrin â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu faterion sydd â goblygiadau polisi sy'n bwysig i Gymru.

**3.** Mae'r Pwyllgor yn trafod effaith cytundebau rhyngwladol a osodir yn Senedd y DU, o dan y broses a sefydlwyd gan *Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010* ("Deddf 2010"), ar Gymru. Mae'n darparu cyfnod craffu cychwynnol o 21 diwrnod.

**4.** Wrth drafod cytundeb rhyngwladol, rydym yn ystyried:

- a yw'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd; a/neu
- a oes goblygiadau polisi posibl i Gymru.

**5.** Ar 30 Medi 2024,[1] fe wnaethom drafod pedwar cytundeb rhyngwladol a oedd wedi'u gosod yn ddiweddar yn Senedd y DU:

- Y DU a Senegal: Cytundeb Cydweithredu ar Amddiffyn ar gyfer Cydweithredu Milwrol;
- Y DU ac UDA: Diwygio'r Cytundeb Cydweithredu ar Ddefnyddio Ynni Atomig at Ddibenion Cydamddiffyn;
- Cytundeb rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, Awstralia, ac Unol Daleithiau America ar Gydweithredu ar Yriant Niwclear Llyngesol; ac
- Y DU ac Wcráin: Cytundeb Fframwaith ar Gymorth Credyd Swyddogol ar gyfer Datblygu Galluoedd Amddiffyn Wcráin.

**6.** Cytunwyd i nodi pob un o'r cytundebau hyn er gwybodaeth yn unig.

[1] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Medi 2024

**7.** Fe wnaethom hefyd drafod a nodi gohebiaeth ynghylch cytundeb rhyngwladol yr oeddem eisoes wedi'i drafod.

# 2. Cytundebau a nodwyd er gwybodaeth

**Y DU a Senegal: Cytundeb Cydweithredu ar Amddiffyn ar gyfer Cydweithredu Milwrol**

**8.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 25 Mawrth 2024. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, oedd 17 Mai 2024.

**9.** Diben y cytundeb yw sefydlu fframwaith ar gyfer cydweithredu milwrol rhwng y Deyrnas Unedig a Senegal. Mae'n rhoi sail i'r lluoedd Amddiffyn gynnal gweithrediadau rhanbarthol yn yr awyr, gan gynnwys meithrin gwydnwch o ran symudiadau'r Llu Awyr Brenhinol yn yr awyr, meithrin cydweithredu agosach o ran yr holl weithgareddau diogelwch morol, gan gynnwys gweithgareddau gwrthgyffuriau a physgota anghyfreithlon nad yw wedi'i reoleiddio na'i gofnodi, a sefydlu fframwaith ar gyfer rhannu cuddwybodaeth yn y dyfodol.

**10.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau bod Gorchymyn Dynodi wedi'i lunio i roi effaith i ddarpariaethau'r cytundeb o ran awdurdodaeth droseddol.[2]

**11.** Mae Memorandwm Esboniadol y cytundeb yn nodi, gan fod y cytundeb yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl yn llwyr ac nad oes iddo unrhyw oblygiadau uniongyrchol i'r llywodraethau datganoledig, nad ymgynghorwyd â'r llywodraethau datganoledig ynghylch drafftio'r cytundeb.[3]

**12.** Gan fod y cytundeb yn ymwneud ag amddiffyn, sy'n fater a gedwir yn ôl fel y darperir ym mharagraff 11 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, cytunwyd i'w nodi er gwybodaeth yn unig.

**Y DU ac UDA: Diwygio'r Cytundeb Cydweithredu ar Ddefnyddio Ynni Atomig at Ddibenion Cydamddiffyn**

**13.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 26 Gorffennaf 2024. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, yw 23 Hydref 2024.

---

[2] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU a Senegal: Cytundeb Cydweithredu ar Amddiffyn ar gyfer Cydweithredu Milwrol, Mawrth 2024, paragraff 5 (Saesneg yn unig)
[3] Memorandwm Esboniadol, paragraff 10 (Saesneg yn unig)

**14.** Diben y cytundeb hwn yw diwygio cytundeb 1958 rhwng y Deyrnas Unedig ac Unol Daleithiau America ar Ddefnyddio Ynni Atomig at Ddibenion Cydamddiffyn ("y Cytundeb Cydamddiffyn"). Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, y Cytundeb Cydamddiffyn yw'r sail ar gyfer cydweithredu rhwng y DU a'r Unol Daleithiau ar gynnal arfau niwclear ataliol y DU yn ddiogel ac yn ddibynadwy.[4]

**15.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod rhai darpariaethau yn y Cytundeb Cydamddiffyn wedi'u hadnewyddu o bryd i'w gilydd (ar sail cylch 10 mlynedd yn ddiweddar) a'u bod yn dod i ben ar ddiwedd 2024. Mae'r cytundeb hwn yn diwygio dyddiad dod i ben rhai darpariaethau yn y Cytundeb Cydamddiffyn er mwyn gwneud y cytundeb cyfan yn barhaol, a sicrhau cydweithrediad parhaus â'r Unol Daleithiau.[5]

**16.** Mae'r cytundeb hwn hefyd yn gwneud rhagor o newidiadau i'r Cytundeb Cydamddiffyn er mwyn dileu iaith hynafol, sicrhau cydweithredu yn y dyfodol, a gwneud y darpariaethau ynghylch gyriant niwclear llyngesol yn rhai cilyddol.

**17.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau nad oes angen deddfwriaeth ddomestig newydd i ddod â'r cytundeb i rym.[6]

**18.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, gan fod y cytundeb yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl, nad ymgynghorwyd yn ffurfiol â'r llywodraethau datganoledig ynghylch drafftio'r cytundeb, ond eu bod wedi'u hysbysu amdano.[7]

**19.** Gan fod y cytundeb yn ymwneud ag amddiffyn ac ynni niwclear, sy'n faterion a gedwir yn ôl, cytunwyd i nodi'r cytundeb er gwybodaeth yn unig.

### Cytundeb rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, Awstralia, ac Unol Daleithiau America ar Gydweithredu ar Yriant Niwclear Llyngesol

**20.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 2 Medi 2024. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, yw 29 Hydref 2024.

**21.** Mae'r cytundeb hwn yn caniatáu i'r Deyrnas Unedig, Awstralia ac Unol Daleithiau America gyfnewid gwybodaeth sy'n ymwneud â llongau tanfor a bwerir gan ynni niwclear, a chanddynt arfau confensiynol. Gall y DU a'r Unol

[4] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU ac UDA: Diwygio'r Cytundeb Cydweithredu ar Ddefnyddio Ynni Atomig at Ddibenion Cydamddiffyn, Gorffennaf 2024, paragraff 2.2 (Saesneg yn unig)
[5] Memorandwm Esboniadol, paragraff 4.2 (Saesneg yn unig)
[6] Memorandwm Esboniadol, paragraff 5 (Saesneg yn unig)
[7] Memorandwm Esboniadol, paragraff 10 (Saesneg yn unig)

Daleithiau hefyd drosglwyddo deunydd ac offer sy'n ymwneud â llongau tanfor a bwerir gan ynni niwclear, a chanddynt arfau confensiynol, i Awstralia, ar yr amod na fyddai trosglwyddiadau o'r fath yn peri risg afresymol i'w hamddiffyn a'u diogelwch.

**22.** Bydd y cytundeb hwn yn disodli'r cytundeb presennol rhwng y partïon (y Cytundeb Cyfnewid Gwybodaeth ar Yriant Niwclear Llyngesol) a bydd yn para tan 31 Rhagfyr 2075, oni chaiff ei derfynu'n gynnar.

**23.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau nad oes angen deddfwriaeth newydd i roi'r cytundeb ar waith.[8]

**24.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, gan fod y cytundeb yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl yn llwyr ac nad oes iddo unrhyw oblygiadau uniongyrchol i'r llywodraethau datganoledig, nad yw Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â hwy ynghylch drafftio'r cytundeb hwn.[9]

**25.** Gan fod y cytundeb yn ymwneud ag amddiffyn ac ynni niwclear, sy'n faterion a gedwir yn ôl, cytunwyd i nodi'r cytundeb er gwybodaeth yn unig.

**Y DU ac Wcráin: Cytundeb Fframwaith ar Gymorth Credyd Swyddogol ar gyfer Datblygu Galluoedd Amddiffyn Wcráin**

**26.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 2 Medi 2024. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, yw 29 Hydref 2024.

**27.** Diben y cytundeb hwn yw rhoi cymorth ariannol i Wcráin ar gyfer caffael offer milwrol sy'n cynnwys cyflenwyr o'r DU.

**28.** Bydd y cytundeb yn caniatáu i Wcráin gael gafael ar gyllid a gefnogir gan Gyllid Allforio'r DU ar gyfer contractau gyda chontractwyr cymwys mewn perthynas â chynnwys y DU, mewn cysylltiad â datblygu galluoedd amddiffyn Wcráin. Mae'r cytundeb wedi'i addasu ar gyfer anghenion Wcráin yn ystod y rhyfel, a byddai'n caniatáu i ystod ehangach o offer milwrol gael eu hariannu drwy fenthyciadau gwarantedig Cyllid Allforio'r DU.

[8] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Cytundeb rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, Awstralia, ac Unol Daleithiau America ar Gydweithredu ar Yriant Niwclear Llyngesol, Medi 2024, paragraff 5 (Saesneg yn unig)
[9] Memorandwm Esboniadol, paragraff 10 (Saesneg yn unig)

**29.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau nad oes angen deddfwriaeth newydd i roi'r cytundeb hwn ar waith.[10]

**30.** Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at y llywodraethau datganoledig, ond mae'n nodi nad oes unrhyw ymgynghori wedi digwydd mewn perthynas â drafftio'r cytundeb.[11]

**31.** Gan fod y cytundeb yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl, sef cysylltiadau rhyngwladol, cytunwyd i nodi'r cytundeb er gwybodaeth yn unig.

[10] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU ac Wcráin: Cytundeb Fframwaith ar Gymorth Credyd Swyddogol ar gyfer Datblygu Galluoedd Amddiffyn Wcráin, Medi 2024, paragraff 5 (Saesneg yn unig)
[11] Memorandwm Esboniadol, paragraff 10 (Saesneg yn unig)

# 3. Gohebiaeth sy'n ymwneud â chytundebau a drafodwyd eisoes

### Cytundeb rhwng y DU a Denmarc ar Gyfranogiad mewn Etholiadau Penodol gan Wladolion o'r Naill Wlad sy'n Preswylio yn Nhiriogaeth y Llall

**32.** Ar ôl i ni ystyried y cytundeb uchod yn ein cyfarfod ar 8 Ionawr 2024, fe wnaethom ysgrifennu[12] at y cyn Brif Weinidog, Vaughan Gething AS, i ofyn am ei asesiad o'r cytundeb, ac i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch:

i) a yw Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y materion a godwyd[13] gan y cyn Brif Weinidog ym mis Gorffennaf 2019 mewn perthynas ag ymrwymiad Llywodraeth y DU i gytundebau rhyngwladol sy'n ymwneud â meysydd datganoledig wedi'u datrys; a

ii) a yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried defnyddio'r weithdrefn deddfwriaeth frys a nodir yn Rheolau Sefydlog 26.95-26.104 y Senedd.

**33.** Ymatebodd y cyn Brif Weinidog mewn llythyr ar 13 Mehefin 2024, a dywedodd:

> *"Nid yw'r sefyllfa wedi'i datrys yn llawn. Serch hynny, gan ystyried polisi cyfredol Llywodraeth Cymru a chefnogaeth ar draws y Senedd i sicrhau hawl eang i bleidleisio mewn etholiadau Cymreig, nid yw'n fater yr ydym wedi rhoi sylw brys iddo."*[14]

**34.** Nododd y cyn Brif Weinidog, pe bai Llywodraeth Cymru neu Senedd yn y dyfodol yn dymuno diwygio'r hawl i bleidleisio i'w gwneud yn fwy cyfyngol, fod "prosesau ar waith" i alluogi Llywodraeth y DU i drafod newidiadau i'r cytundebau rhyngwladol perthnasol ar ran Llywodraeth Cymru, ac y byddai, o dan yr amgylchiadau hynny, yn disgwyl i "drafodaethau cadarnhaol gael eu cynnal rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU er mwyn dod i ddatrysiad derbyniol".[15]

[12] Llythyr at y Prif Weinidog, 16 Mai 2024
[13] Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog at y Llywydd, 3 Gorffennaf 2019
[14] Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog, 13 Mehefin 2024
[15] Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog, 13 Mehefin 2024

**35.** Dywedodd y cyn Brif Weinidog hefyd nad yw Llywodraeth Cymru wedi ceisio unrhyw ddulliau deddfwriaethol i fynd i'r afael â'r materion posibl hyn.

**36.** Fodd bynnag, dywedodd y cyn Brif Weinidog:

> *"Mae gennym berthynas dda â Llywodraeth y DU o ran trafod materion etholiadol. Nid oes gennym unrhyw reswm i gredu y byddai Llywodraeth y DU yn ceisio deddfu i ddileu neu gyfyngu ar hawl dinasyddion yr UE i bleidleisio mewn etholiadau lleol Cymreig."*[16]

[16] Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog, 13 Mehefin 2024